# Sylweddau Sinistr
# Gweithgareddau Dilynol ar gyfer Athrawon

Mae'r gweithgareddau dilynol ar gyfer Sylweddau Sinitr yn rhoi cyfleoedd i'r disgyblion gyflawni canlyniadau dysgu Cyfnod Allweddol 2 Isaf o'r Fframwaith ABCh i bobl ifanc rhwng 7 a 19 yng Nghymru a'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol 2013. Nid yw'r gweithgareddau isod yn ddilynol ond yn hytrach yn ddewislen i athrawon.

| TASG Gweithgaredd dilynol | Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd | Cysylltiadau gyda'r Fframwaith ABCh i bobl ifanc rhwng 7 a 19 yng Nghymru | |
|---|---|---|---|
| | | **Sgiliau** | **Ystod** |
| 1. Gweithgaredd rhagarweiniol | Ll(Ll) s<br>Ll(Ll)c&th<br>Ll (D)d&d<br>Ll (D)y&d | • Gwahaniaethu rhwng ffeithiau, cred a barn | • Deall effeithiau niweidiol tybaco, alcohol a sylweddau cyfreithlon ac anghyfreithlon arnynt hwy eu hunain ac ar bobl eraill. |
| 2. Gweithgaredd graddio diemwntau | Ll(Ll) s<br>Ll(Ll)g<br>Ll(Ll)c&th<br>Ll (D)d&d<br>Ll (D)y&d | • Nodi cysylltiadau rhwng achos ac effaith<br>• Gwrando'n astud, cwestiynu ac ymateb i eraill. | • Cymryd cyfrifoldeb cynyddol am gadw'r meddwl a'r corff yn ddiogel ac iach. |
| 3. Chwarae rôl mewn cylch | Ll(Ll) s<br>Ll(Ll)g<br>Ll(Ll)c&th | • Gwrthsefyll pwysau cyfoedion ac ymddygiad na chroesewir<br>• Mynegi eu teimladau a'u barn yn hyderus drwy ystod o ddulliau priodol | • Teimlo'n bositif am eu hunain ac yn sensitif at deimladau pobl eraill<br>• Deall bod gan weithredoedd personol ganlyniadau |
| 4. Ysgrifennu cerdd Sylweddau Sinistr | Ll(Ll) s<br>Ll(Ll)g | • Mynegi eu | • Teimlo'n bositif am eu hunain ac |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Ll(Ll)c&th | teimladau a'u barn yn hyderus drwy ystod o ddulliau priodol | yn sensitif at deimladau pobl eraill |
| 5. Poster Pŵer Disgybl | Ll(Ll) s<br>Ll(Ll)g<br>Ll(Ll)c&th | • Mynegi eu teimladau a'u barn yn hyderus drwy ystod o ddulliau priodol | • Deall effeithiau niweidiol tybaco, alcohol a sylweddau cyfreithlon ac anghyfreithlon arnynt hwy eu hunain ac ar bobl eraill. |
| 6. Ysgrifennu stori (Sylweddau) Sinistr | | • Mynegi eu teimladau a'u barn yn hyderus drwy ystod o ddulliau priodol | • Deall effeithiau niweidiol tybaco, alcohol a sylweddau cyfreithlon ac anghyfreithlon arnynt hwy eu hunain ac ar bobl eraill. |

1. ***Gweithgaredd Rhagarweiniol***

Rhannwch y dosbarth yn grwpiau. Gofynnwch i'r disgyblion i lenwi'r taflenni gwaith mewn dull carwsél ac adrodd yn ôl ar eu hatebion i'r dosbarth i atgyfnerthu'r dysgu a 'chysylltu' gyda'r wers flaenorol. Gallwch brintio copïau o'r 'bocs siarad' (chatterbox) / gêm dweud ffortiwn (Adnodd 1b)a gall y disgyblion eu hadeiladu â chymorth. Gall y rhain hybu trafodaeth am y dysgu blaenorol yn y wers Sylweddau Sinistr. Gall y disgyblion hefyd gynllunio eu gêm dweud ffortiwn eu hunain er mwyn cyflwyno negeseuon allweddol am Sylweddau Sinistr o'r wers. I atgyfnerthu'r gwaith a wnaed yn ystod gwers y swyddog heddlu, defnyddiwch y taflenni gwaith (Adnodd 1a). Holwch y disgyblion :

- Faint wyddoch chi am ysmygu?
- Faint wyddoch chi am alcohol?
- Faint wyddoch chi am doddyddion?

2. ***Gweithgaredd Graddio Diemwntau***

a). Fel y trafodwyd yn y wers Sylweddau Sinistr, mae yn erbyn y Gyfraith i ysmygu mewn ceir gyda phlant dan 18 oed yn bresennol. Gofynnwch i'r plant weithio mewn grwpiau bychan i dasgu syniadau ynglŷn â pham eu bod yn meddwl fod y gyfraith wedi newid. Gofynnwch i bob grŵp rannu un syniad gyda gweddill y dosbarth.

b). Gofynnwch i'r plant weithio mewn parau i wneud y gweithgaredd graddio diemwntau gan ddefnyddio'r cardiau (2.a) a'r daflen (2.b) isod. Mae dwy set o gardiau wedi eu darparu ar gyfer gwahanol oedrannau neu wahanol lefelau llythrennedd. Gofynnwch i'r plant ddarllen pob un o'r datganiadau ynglŷn â pham ei bod yn erbyn y Gyfraith i ysmygu mewn ceir gyda phlant o dan 18 yn bresennol a phenderfynu pa rai yw'r mwyaf a'r lleiaf pwysig. Dylent osod y cardiau ar y daflen graddio diemwntau yn nhrefn pwysigrwydd. Diben yr ymarferiad hwn yw hybu trafodaeth am bwysigrwydd cymharol ystod o ffactorau. Mae siâp y diemwnt yn annog canolbwyntio at yr un ffactor bwysicaf, yna'r ddwy nesaf, y tair nesaf ac yn y blaen nes cyrraedd y ffactor lleiaf pwysig.


DATGANIADAU SYML AR GYFER EU DOSBARTHU

| | | |
|---|---|---|
| Mae plant dan 18 yn ddiogel rhag ysmygu goddefol. | Ni fydd plant gydag asthma yn mynd yn sâl. | Mae babanod heb eu geni yn ddiogel rhag mwg. |
| Ni fydd gwallt a dillad yn drewi. | Nid yw'ch ysgyfaint yn llenwi a thar. | Gall pob aelod o'r teulu anadlu aer glân. |
| Ni fydd plant yn gorfod anadlu nwyon cas. | Mae taith yn y car yn bleserus. | Mae plant yn dysgu nad yw ysmygu yn dda i chi. |

DATGANIADAU MWY CYMHLETH AR GYFER EU DOSBARTHU

| | | |
|---|---|---|
| Gall plant dan 18 fynd allan heb boeni am ysmygu goddefol. | Nid oes yn rhaid i blant sydd ag asthma neu broblemau anadlu eraill boeni am ysmygu goddefol mwyach. | Gall menywod beichiog deithio a theimlo bod eu babanod heb eu geni yn ddiogel rhag mwg. |
| Mae gwahardd ysmygu mewn car yn golygu na fydd gwallt na dillad pobl yn drewi. | Ni fydd eich ysgyfaint yn llenwi â thar a Sylweddau Sinistr eraill. | Bydd pawb yn y teulu yn anadlu aer di-fwg. |
| Ni fydd plant yn gorfod anadlu | Bydd taith yn y car yn bleserus i'r teulu | Drwy wahardd ysmygu mewn ceir, |

| | | |
|---|---|---|
| nwyon peryglus. | i gyd. | mae pawb yn gwybod nad yw ysmygu yn dda i chi. |




c) Diweddglo - a oedd unrhyw rai o'r syniadau gwreiddiol a gafwyd yn y sesiwn tasgu syniadau i'w gweld ar y cardiau?
Cwblhewch yr ymarferiad fel dosbarth i drafod eu rhesymu.

- Wedi i'r plant orffen y dasg, gofynnwch i bâr rannu eu dewis uchaf gyda'r dosbarth gan roi rhesymau am eu dewis.
- Pwy arall sydd â hwnnw fel eu dewis cyntaf? A oedd yr un rhesymau ganddynt?
- Parhewch hyd nes y bydd dewis cyntaf pawb wedi ei drafod.
- Gofynnwch i bâr arall beth oedd eu dewis olaf a gofyn am resymau.
- Pwy arall sydd â hwnnw fel eu dewis olaf? A oedd yr un rhesymau ganddynt?
- Parhewch hyd nes y bydd dewis olaf pawb wedi ei drafod.
- A oes yna resymau gan y plant nad sydd ar y cardiau?

3. **Chwarae Rôl mewn Cylch** - I wneud y gweithgaredd hwn byddwch angen ystafell sy'n ddigon mawr i'r plant eistedd mewn cylch heb unrhyw fyrddau na chadeiriau

**a)** Rhannwch y dosbarth yn ei hanner, gydag un hanner i chwarae rôl y ***perswadwyr*** a'r hanner arall rôl y rhai sy'n ***gwrthsefyll***. Rhannwch y perswadwyr a'r rhai sy'n gwrthsefyll yn grwpiau o bedwar. Gofynnwch i'r perswadwyr feddwl am syniadau ynglŷn â sut i berswadio eraill i yfed alcohol neu ysmygu sigarét. *Bydd yr athro/athrawes yn dewis pa sylwedd i ganolbwyntio arno yn dibynnu ar y dosbarth a'r cyd-destun.* Gofynnwch i'r rhai sy'n gwrthsefyll i feddwl am syniadau ynglŷn â sut i wrthsefyll pan fydd ffrindiau yn ceisio eu

cael i yfed alcohol neu ysmygu sigarét. Dylai'r plant drafod eu syniadau ac efallai greu map meddwl o'u meddyliau.

**b)** Ail-grwpiwch y plant fel bod gan bob grŵp 2 berswadiwr a 2 sy'n gwrthsefyll. Gofynnwch i'r plant chwarae rôl sefyllfa pan fo dau blentyn yn ceisio perswadio dau blentyn arall i yfed neu ysmygu.
*Mae hyn yn rhoi'r sail ar gyfer strwythur naratif, h.y. cymeriadau, lleoliad, plot, ayyb.* Unwaith y bydd y plant wedi penderfynu ar eu sefyllfa dylent chwarae rôl o'r hyn sy'n digwydd. Yn y chwarae rôl dylent gyrraedd datrysiad er mwyn gorffen y naratif. Caniatewch 10-15 ar gyfer y cam hwn. Gofynnwch i grŵp o 4 wirfoddoli i berfformio eu chwarae rôl i weddill y dosbarth.

**c)** Diweddglo - Yn dilyn y sesiwn chwarae rôl gofynnwch i'r plant lunio grŵp newydd o bedwar a rhestru gyda'i gilydd gymaint o ffyrdd o ddweud 'na' ag y gallent gofio o'r chwarae rôl. Ffordd dda i wneud hyn yw rhoi rhif i'r plant, h.y. os oes 28 o blant yn y dosbarth rhifwch hwy o 1 i 7 a gofynnwch i bob rhif un eistedd gyda'i gilydd, pob rhif dau i eistedd gyda'i gilydd ac yn y blaen. Fel hyn bydd y plant yn cael y cyfle i weithio gydag eraill yn y dosbarth a deall bod hon yn ffordd ar hap o grwpio sydd yn deg. Mae hefyd yn syniad da gofyn iddynt enwebu un plentyn i wneud y cofnodi ar ran y grŵp. Yna bydd pob grŵp yn rhannu eu rhestr gyda gweddill y dosbarth. Gofynnwch i bob plentyn ddewis pa strategaeth y byddent fwyaf cyfforddus yn ei defnyddio os byddent yn cael cynnig alcohol neu sigarét Gofynnwch iddynt dynnu llun ohonynt eu hunain gyda swigen siarad yn dweud **'NA'** gan roi eu rheswm.

4. **Cerdd Sinistr -** Atgoffwch y dosbarth am y gerdd Sylweddau Sinistr ar ddiwedd gwers y Swyddog Heddlu Cymunedol Ysgolion. Darllenwch y gerdd (gan ddefnyddio adnodd 4 ) a thrafodwch y prif negeseuon. Rhannwch y disgyblion yn barau o dri neu bedwar. Trafodwch y geiriau allweddol o'r wers - Sylweddau, Tybaco, Alcohol a Thoddyddion. Gall y disgyblion daflu syniadau cyn ysgrifennu eu cerdd eu hunain. Fel arall, gellir ysgrifennu un gerdd fel dosbarth cyfan, gan ddefnyddio adborth o bob grŵp.5.
5. **Poster Pŵer Disgybl -** Gan ddefnyddio Adnodd 5, gofynnwch i'r disgyblion ddewis Alcohol, Tybaco neu doddyddion fel thema. Gofynnwch iddynt gynllunio poster yn amlinellu peryglon y sylwedd dan sylw. Gellir arddangos y poster yn yr ysgol, ar wefan yr ysgol, cylchlythyr rhieni, neu / a'i rannu ar-lein trwy drydar ar @Schoolbeat. Fel arall gellwch anfon copi i'ch Swyddog Heddlu Cymunedol Ysgol a fyddai wrth ei fod yn ei weld.

6. **Stori Sinistr** - gan ail greu steil y stori Sylweddau Sinistr, gofynnwch i'r disgyblion ysgrifennu eu stori Sylweddau Sinistr eu hunain. Rhannwch gyda rhieni a'r gymuned ysgol ehangach i ledaenu neges Sylweddau Sinistr ymhellach. Rhannwch ar-lein a thrydar ar @Schoolbeat.